7 Mehefin 2021

Annwyl Riant / Ofalwr

Lleoliadau Disgyblion
Bydd disgyblion Blynyddoedd 7 - 9 yn parhau i dderbyn eu gwersi yn yr un lleoliadau tan ddiwedd y tymor; gwneir hyn ar sail asesiad risg o'r sefyllfa, ac mae'r angen i gadw carfannau o ddisgyblion ar wahân yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn tarfu ar ledaeniad y firws. Er hynny, fe'ch atgoffwn fod gwersi Ymarfer Corff, Coginio, rhai gwersi DT, a TGCh, bellach yn digwydd mewn ystafelloedd arbenigol, ac mae'r disgyblion hefyd yn ymlwybro i'r Ffreutur i gasglu eu cinio, ac yn mwynhau manteisio ar y cyfleusterau newydd ar y caeau chwarae - felly nid yw disgyblion yn gaeth i'w hardaloedd penodol gydol dydd.

Pennu a Rhannu Graddau
Bwriedir parhau ar y broses o bennu graddau'r ganolfan ar gyfer arholiadau allanol Haf 2021 dros yr wythnos a hanner nesaf, a'r bwriad yw rhannu'r rhain yn electronig gyda Blwyddyn 11 ac 13 ar **Ddydd Gwener 18 Mehefin;** bydd Blwyddyn 12 yn derbyn y wybodaeth ar bapur yn yr Ysgol ar yr un dydd. Bydd y graddau a bennir gan yr Ysgol yn cael eu safoni gan CBAC ac yna bydd y graddau terfynol yn cael eu dyfarnu i'r disgyblion ym mis Awst. Bydd diwrnod canlyniadau **Lefel A / UG** ar **Ddydd Mawrth 10 Awst**, a dydd canlyniadau **TGAU** ar **Ddydd Iau 12 Awst**.

Ffarwelio Blwyddyn 13
Cynhaliwyd Seremoni Ffarwelio cyn y gwyliau i ddymuno'n dda i Flwyddyn 13 ar Ddydd Gwener 28 Mai. Dosbarthwyd gwobrau i nifer o fyfyrwyr disglair y flwyddyn,
a chafwyd araith bwrpasol gan y Parchg Ddoctor Adrian Morgan, Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, i herio'r myfyrwyr wrth iddynt droedio i'r dyfodol.

Blwyddyn 11
Treuliwyd Dydd Gwener hyfryd hefyd yng nghwmni Blwyddyn 11 wrth iddyn nhw benderfynu mai'r diwrnod hwnnw oedd y cyfle i ddathlu diwedd cyfnod rhai ohonyn nhw yn yr Ysgol (Wrth reswm, byddwn yn croesawu'r mwyafrif nol i'r Chweched Dosbarth). Oherwydd hyn, bydd dim disgwyl i ddisgyblion Blwyddyn 11 sydd wedi cwpla eu hasesiadau ddod mewn i'r Ysgol eto, **ac mae'r dyddiad 'olaf' blaenorol wedi ei ddileu**. Mae'r Ysgol wedi cynhyrchu llyfryn arbennig i ddathlu cyfraniad Blwyddyn 11 i fywyd yr Ysgol, ac mae'n diolch ni yn fawr iawn i'r sawl sydd wedi bod wrthi yn ei baratoi; bydd y llyfryn yn dod o'r wasg dros y pythefnos nesaf.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Ap Bwyd
Mae cannoedd o ddisgyblion bellach yn archebu bwyd ar ein Ap newydd. Arbrofwyd gydag ambell eitem o fwyd twym ar y fwydlen cyn y gwyliau, a rhagwelwn gynnydd pellach yn y defnydd beunyddiol o'r Ap yn ystod Mehefin a Gorffennaf.
Mae modd manteisio ar dabledi cyfrifiadurol yn hen Neuadd yr Ysgol i archebu cyn 9am os oes pr oblemau wedi bod yn archebu o adref neu ar y ffôn.

Diwrnod HMS
Cynhelir diwrnod olaf HMS eleni ar **Ddydd Mercher 23 Mehefin**. Rhydd hyn gyfle i staff dderbyn hyfforddiant pellach a chyfle i gynllunio ar gyfer dyfodiad y Cwricwlwm Newydd.

Gwisg Haf
Caniateir i ddisgyblion wisgo siorts du yn ystod **hanner tymor olaf y flwyddyn.** A wnewch chi nodi'r manylion canlynol ynglŷn â'r wisg:
Trowsus byrion i'r bechgyn
Caniateir i fechgyn wisgo **trowsus byrion plaen du** hyd y pen-glin neu tri chwarter ac yn drwsiadus ar gyfer eu gwisgo i'r ysgol. Gellir gwisgo'r trowsus byrion gydag esgidiau du neu esgidiau ymarfer. **Ni** chaniateir **flip flops na sandalau agored** oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. **Ni** chaniateir chwaith **siorts amryliw neu flodeuog, neu siorts rygbi**.
Trowsus byrion i'r merched
Mae merched hefyd yn gallu gwisgo **trowsus byrion plaen du** hyd y penglin neu tri chwarter gydag esgidiau du neu esgidiau ymarfer ond nid flip flops na sandalau agored. Mae gan y merched opsiwn y sgert ddu ysgol hyd y penglin **ond nid sgertiau byr a dim 'leggings'.**

Hetiau / eli haul
A wnewch chi sicrhau bod eich plant yn cymryd gofal ar ddiwrnodau poeth iawn i osgoi dioddef effeithiau andwyol yr haul.

Gan ddiolch ymlaen llaw am bob cydweithrediad

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

7 June 2021

Dear Parent / Carer

Pupil Locations
Year 7 - 9 pupils will continue to receive their lessons in the same locations until the end of term; this has been done on the basis of a risk assessment of the situation, and the need to separate cohorts of pupils as we continue to mitigate the spread of the virus. However, you are reminded that PE, Cookery, some DT lessons, and ICT, are now taking taught in specialist rooms, and pupils also make their way to the Canteen to collect their lunch, and enjoy taking advantage of the new facilities on the playing fields during lunchtime - so pupils are not confined to their specific areas throughout the day.

Determining and Sharing Grades
The centre's grading process for summer 2021 external examinations is set to continue over the next week and a half, with the intention of sharing these electronically with Year 11 and 13 on **Friday 18 June**; Year 12 will receive the information manually at the School on the same day. The grades determined by the School will be moderated by WJEC and the final grades will then be awarded to the pupils in August. There will be an **A / AS** results day on **Tuesday 10 August**, and a **GCSE** results day on **Thursday 12 August**.

Farewell to Year 13
A Farewell Ceremony was held before the holidays to wish Year 13 well on Friday May 28th. Awards were given to a number of the students of the year, and the Revd Dr Adrian Morgan, Vice Chair of Governors, made a purposeful speech to challenge the students as they stride into the future.

Year 11
Friday was also the day that Year 11 decided would be their last, and we had the enjoyable experience of celebrating the end of their time in School (Although most will be rejoining us in the Sixth Form). Because of this, Year 11 pupils who have completed all their assessments will not be expected be expected in School again. The School has produced a special booklet to celebrate the contribution of Year 11 to the life of the School, and we thank those who have been preparing it. The booklet will be available, hot off the press, during the next two weeks. We hope that it will be a fitting reminder to the pupils of their time in Gŵyr.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Food App
Hundreds of pupils are now ordering food on our new App. We experimented with some hot food items on the menu before the holidays, and we anticipate a further increase in the daily use of the App during June and July. Computer tablets in the old School Hall can be used to order before 9am if there have been problems ordering from home or by phone.

INSET day
The final day of INSET this year will be on **Wednesday 23 June**. Thisday will give staff the opportunity to receive further training and a chance to plan for the advent of the New Curriculum

Summer Uniform
Pupils are allowed to wear black shorts during the last half term of the year. Please note the following about the uniform:
Shorts for the boys
Boys are allowed to wear plain black shorts down to the knee or three quarter length to wear to school. The shorts can be worn with black shoes or trainers. Flip flops or open sandals are **not** allowed for health and safety reasons. Neither are colourful or floral shorts, or rugby shorts, allowed.
Shorts for the girls
Girls can also wear plain black shorts at knee or three-quarter length with black shoes or trainers but not open flip flops or sandals. The girls have the option of the school black knee length skirt but not short skirts and no leggings.

Hats / sunscreen
Please ensure that your children take care on very hot days to avoid the adverse effects of the sun.

Thanking you for your cooperation

Headteacher

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk